# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 5 Gorffennaf 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 82(v6)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(10 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:**

Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): Pa ystyriaeth y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i roi i flaenoriaethu trawiadau'r galon yn y categori ymateb ambiwlans mwyaf brys o wyth munud, yn sgil y datganiad a gyhoeddodd ar 29 Mehefin yn nodi bod gobaith claf o oroesi ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty yn gostwng 10 y cant bob munud? **TYNNWYD YN ÔL**

**I Brif Weinidog Cymru:**

Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o bapur polisi Llywodraeth y DU, 'Safeguarding the position of EU citizens in the UK and UK nationals in the EU', a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf?

**I Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:**

Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth ar gyfer 'Y Cymro', o ystyried yr ansicrwydd presennol am ei ddyfodol tymor hir?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau

(5 munud)

**NDM6361** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Gareth Bennett (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig) yn aelod o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle David J Rowlands (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig).

**NDM6364** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Mark Reckless (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn lle Mohammad Asghar (Ceidwadwyr Cymreig).

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod

(30 munud)

**NDM6349** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig am fil i gefnogi gofalwyr ifanc yng Nghymru.

2. Yn nodi mai diben y bil hwn fyddai:

a) darparu canllawiau statudol i ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer darparu cefnogaeth a hyblygrwydd priodol i ofalwyr ifanc ymgymryd â'u cyfrifoldebau gofal yn ystod oriau ysgol ac ar ôl oriau ysgol;

b) darparu canllawiau i ysgolion i weithio gyda gofalwyr ifanc er mwyn darparu llwybrau hyblyg i sicrhau eu bod yn parhau mewn addysg;

c) caniatáu i ofalwyr ifanc gasglu presgripsiynau ar ran y rhai sydd yn eu gofal, a hynny gyda Cherdyn Gofalwr Ifanc neu ddull arall; a

d) sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sefydliadau priodol i gyflwyno gwasanaeth lliniarol a chefnogaeth i ofalwyr ifanc ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6354** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cynlluniau adfywio o ran gwella ffyniant cymunedau ledled Cymru ar gyfer y dyfodol.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu sut y mae'n bwriadu ennyn hyder buddsoddwyr ar gyfer prosiectau adfywio.

3. Yn gresynu at y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â phrosiect Cylchffordd Cymru ac yn credu y gallai hyn gael effaith negyddol ar fuddsoddiad posibl ar gyfer prosiectau adfywio yng Nghymru yn y dyfodol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cynlluniau adfywio sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ymyriadau fel datblygu seilwaith, creu swyddi o safon uchel yn ogystal â sgiliau a chyflogadwyedd er mwyn gwella ffyniant cymunedau ar draws Cymru at y dyfodol.

2. Yn croesawu sefydlu'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De, sy'n anelu at sicrhau adfywio effeithiol ar draws y rhanbarth ynghyd â seilwaith cadarn a chysylltiol; gwell mynediad at swyddi o safon uchel a datblygu sgiliau.

3. Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi £100m dros ddeng mlynedd mewn Parc Busnes Technoleg Fodurol yng Nglynebwy er mwyn hybu twf economaidd ar draws Blaenau'r Cymoedd.

4. Yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill wrth fwrw ymlaen â Bargen Dwf Gogledd Cymru er mwyn hybu twf economaidd ar draws ffiniau.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gwrdd â phob parti perthnasol er mwyn archwilio atebion posibl i'r materion y cyfeirir atynt yn ei datganiad ar Gylchffordd Cymru ar 27 Mehefin 2017 i ennyn hyder buddsoddwyr y dyfodol.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i sefydlu ymchwiliad annibynnol llawn i'r ffordd yr ymdriniodd Llywodraeth Cymru â phrosiect Cylchffordd Cymru.

## 8 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6356** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

1. Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi strategaeth er mwyn cyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

2. Yn nodi'r adroddiad 'Cyrraedd y Miliwn' gan Blaid Cymru sydd yn amlinellu yn glir rhai o'r prif flaenoriaethau strategol ar gyfer tyfu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i filiwn erbyn 2050.

3. Yn galw am weithredu gan y Llywodraeth i:

a) gynllunio ar gyfer twf sylweddol, a normaleiddio, addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg;

b) sicrhau bod ystyriaethau i'r iaith yn rhan annatod o gynllunio economaidd fel rhan o gynnal y cyfundrefnau cynhaliol cyfredol a'r angen i hyn gael ei adlewyrchu yn strategaeth economaidd arfaethedig Llywodraeth Cymru;

c) gryfhau rôl Comisiynydd y Gymraeg i reoleiddio a hyrwyddo hawliau siaradwyr Cymraeg ac ehangu safonau'r Gymraeg i'r sector breifat gan gynnwys y sector delathrebu, banciau ac archfarchnadoedd;

d) sefydlu asiantaeth hyd-braich newydd i hyrwyddo'r iaith ym meysydd addysg, y gymuned a'r economi.

'Cyrraedd y Miliwn'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Papur Gwyn at ddibenion ymgynghori'r haf yma ar y ddarpariaeth ar gyfer Bil y Gymraeg newydd.

Yn cydnabod y camau sydd eisoes wedi'u cymryd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws cymunedau a gweithleoedd, mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol.

Yn croesawu sefydlu bwrdd cynllunio er mwyn ymgynghori ar raglen genedlaethol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2, 3, 4, 5 a 6 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn credu y bydd mynd yn groes i farn gyhoeddus leol yn cyfyngu ar unrhyw obaith fydd gan strategaeth Llywodraeth Cymru o lwyddo i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau:

a) bod unrhyw newidiadau i addysg bresennol cyfnodau allweddol 1 i 5 a darpariaeth gofal plant yn cynnwys ymgynghoriad lleol gwirioneddol:

i) gyda'r holl ymatebwyr yn darparu eu henwau, cyfeiriadau a chodau post; a

ii) gyda'r holl unigolion a enwir mewn deiseb a gyflwynir yn cael eu cofnodi fel sylwadau ar wahân; a

b) na roddir blaenoriaeth i farn trydydd parti, asiantau na chomisiynwyr, gan gynnwys y rhai sy'n awgrymu eu bod yn cynnig cyngor arbenigol ar y ddarpariaeth Gymraeg, dros ddymuniadau trigolion lleol a rhieni.

*[Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliannau 3, 4, 5 a 6 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 3.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu 3(b) a rhoi yn ei le:

ystyried y ffordd orau o hyrwyddo caffael a defnyddio sgiliau Cymraeg fel rhan annatod o'i strategaeth economaidd.

**Gwelliant 4.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu 3(c) a rhoi yn ei le:

adolygu rôl Comisiynydd y Gymraeg a sicrhau bod y Comisiynydd yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gwelliant 5.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnwys is-bwynt newydd ar ôl 3(c) ac ailrifo yn unol â hynny:

ystyried diben ac effeithiolrwydd safonau'r Gymraeg cyn unrhyw gynnig i ehangu eu cymhwyso i'r sector preifat.

**Gwelliant 6.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu 3(d) a rhoi yn ei le:

mabwysiadu model newydd, y tu allan i'r llywodraeth, ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ym meysydd addysg, y gymuned a'r economi.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6355** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Trosedd casineb - a yw ar gynnydd yng Nghymru?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28 Mehefin 2017
# i'w hateb ar 5 Gorffennaf 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

**1. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y defnydd y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn ei wneud o hysbysiadau cosb benodedig? OAQ(5)0148(FLG)

**2. Hannah Blythyn (Delyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd bargen dwf gogledd Cymru? OAQ(5)0154(FLG)

**3. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Beth oedd blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet wrth ddyrannu arian i brif grŵp gwariant cymunedau a phlant yng nghyllideb derfynol 2017-18? OAQ(5)0145(FLG)

**4. David J Rowlands (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr arbedion a ragwelir o ganlyniad i fodel newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol? OAQ(5)0147(FLG)

**5. Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am dalu'r cyflog byw sylfaen gan awdurdodau lleol yng Nghymru? OAQ(5)0155(FLG)

**6. Jeremy Miles (Castell-nedd):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i asesu gwydnwch gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yn y dyfodol yn sgil polisi cyni parhaus Llywodraeth y DU? OAQ(5)0151(FLG)

**7. Mark Reckless (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y gyllideb a ddyrannwyd i bortffolio'r economi a'r seilwaith mewn perthynas â Chylchffordd Cymru? OAQ(5)0152(FLG)

**8. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer datganoli trethi? OAQ(5)0146(FLG)

**9. Hefin David (Caerffili):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer craffu mewn llywodraeth leol? OAQ(5)0149(FLG)

**10.** **Sian Gwenllian (Arfon):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddiwygio llywodraeth leol? OAQ(5)0157(FLG)**W**

**11.** **Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch darparu gwasanaethau lleol? OAQ(5)0156(FLG)

**12.** **Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyrannu cyllid i'r portffolio addysg? OAQ(5)0153(FLG)

**13.** **Neil McEvoy (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am bolisïau trethi lleol Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0150(FLG)

**14.** **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyfodol fformiwla Barnett yn dilyn y cytundeb rhwng Llywodraeth y DU a Phlaid yr Unoliaethwyr Democrataidd? OAQ(5)0158(FLG)**W**

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

**1.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gynnydd y mae'r Cynulliad yn ei wneud o ran tyfu bwyd ar ei ystâd? OAQ(5)008(AC)**R**

**2.** **Huw Irranca–Davies (Ogwr):** A wnaiff y Comisiwn archwilio rhinweddau sefydlu cynllun lleoli Llywydd er mwyn gwella argaeledd interniaethau â thâl gydag Aelodau'r Cynulliad? OAQ(5)009(AC)